Sant Ffransis: 1181–1226

Ffrind yr anifeiliaid i gyd

Gostyngeiddrwydd / gofal / dewrder

Pa fath o anifail sydd gennych chi? Oes gennych chi gi, cath, cwningen, bwji neu bysgodyn aur? Mae rhai pobl yn cadw anifeiliaid gwahanol iawn. Mae rhai pobl yn cadw neidr neu bry cop mawr blewog. Roedd Sant Ffransis yn ffrind i'r anifeiliaid i gyd. Roedd ef yn hoffi pob anifail, hyd yn oed y rhai roedd pobl yn eu casáu. Dyma hanes Sant Ffransis a'r blaidd.

Ar ei ffordd i'r farchnad gwelodd Sant Ffransis ddyn yn cario cawell. Yn y cawell roedd nifer o adar lliwgar.

"Peidiwch â'u gadael mewn cawell," meddai Ffransis wrth y perchennog. "Gollyngwch nhw'n rhydd." Ac fe wnaeth y perchennog ar ei union. Ar ôl iddyn nhw gael eu gollwng, dyma'r adar yn hedfan a glanio ar ysgwydd ac ar ben Sant Ffransis. Pan fyddai'r Sant yn gorffwyso o dan goeden byddai'r adar yn dod a hedfan ar ganghennau'r goeden. Yna, mi fydden nhw'n canu'n swynol. Byddai'r Sant wrth ei fodd yn eu clywed yn canu.

Yna gyda'r nos byddai'n dweud wrth yr adar bach, "Byddwch ddistaw, ewch i gysgu." Ac ymhen dim byddai'r adar i gyd wedi tawelu ac wedi mynd i gysgu'n ddistaw bach ym mrigau'r coed.

Un diwrnod, daeth Sant Ffransis i bentref bychan lle roedd pawb yn byw mewn ofn. Ar gwr y pentref, yn y goedwig dywyll, roedd blaidd peryglus yn byw. Gyda'r nos, pan fyddai'n dechrau tywyllu, byddai'r blaidd yn dod i mewn i'r pentref. Pan glywai'r pentrefwyr fod y blaidd yn dod fe fydden nhw'n rhedeg i mewn i'w tai a chloi'r drysau'n dynn. Gofynnodd y pentrefwyr i Sant Ffransis eu helpu nhw.

"Fe wnawn ni dy helpu," meddai'r dynion. Cychwynnodd y dynion gyda ffyn a phastynau, ond meddai Ffransis wrthyn nhw,

"Does dim angen ffyn a phastynau, gadewch i mi fynd i siarad efo fy mrawd, y blaidd."

Cerddodd Ffransis yn araf tua'r goedwig.

"Cymer di bwyll," meddai un o'r pentrefwyr wrtho.

"Fe fydd o'n siŵr o dy ladd di," meddai un arall.

Ond ymlaen yr aeth Ffransis. Pan gyrhaeddodd y goedwig,

daeth y blaidd yn syth amdano.

"Ara deg, rŵan," meddai'r Sant. "Paid ti â gwneud dim drwg i mi." Ac yn sydyn, dyma'r blaidd yn gorwedd wrth draed Ffransis.

"Tyrd efo fi i'r pentref," meddai wrth y blaidd. Dilynodd y blaidd ef i'r pentref. Roedd y pentrefwyr i gyd wedi synnu. Roedd y blaidd mor ufudd. Ar ôl hynny, bu'r blaidd yn mynd a dod rhwng y pentref a'r goedwig. Byddai'r pentrefwyr yn gadael bwyd iddo yn eu gerddi. Byddai yntau'n bwyta'n awchus ac yna'n mynd yn ôl i'r goedwig. Fe ddaeth y pentrefwyr a'r blaidd yn ffrindiau mawr.

"...yn Nuw yr wyf yn ymddiried heb ofni."
Salm 56:11

Roedd yr adar a'r anifeiliaid
yn ymddiried yn y Sant.
Helpa fi i ymddiried ynot ti, O Dduw.
Amen.

Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig ymddiried mewn pobl eraill?
Ydi o'n bwysig ymddiried yn Nuw?

Sant Ffransis: 1181-1226